



## **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Aseiad Effaith Integredig**

Bwriedir i'r aseiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

**NODER:** Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol*.

Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, **Paratoi ar gyfer cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**.

### **1. Manylion y Cynnig**

**Swyddog Arweiniol:- Andrea West / Lisa Thomas**

**Pennaeth Gwasanaeth:- Sue Richards**

**Maes Gwasanaeth ac Adran:- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

**Dyddiad:- Medi 2023**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.

**Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** *Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.*

Cynnig

**Cau Ysgol Fabanod Cwm Glas**

---



Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a rheoli lleoedd ysgol a rhaid iddyn nhw sicrhau darpariaeth yn effeithlon er mwyn canolbwyntio adnoddau ar wella. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ei gydnabod.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Cyngor yw adnabod y strategaethau trefniadaeth ysgolion a rheoli asedau hynny sy'n cyfrannu'n fwyaf cadarnhaol at ddeilliannau i ddysgwyr.

Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas yn gostwng, a rhagwelir y bydd yn gostwng ymhellach, cafodd cyfarfod ei drefnu gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Cytunwyd yn y cyfarfod na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

### **Cau Ysgol Babanod Cwm Glas**

Ar hyn o bryd mae disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, i gyflenwi darpariaeth ysgol gynradd bob oed cynhwysol o fis Medi 2024. Bydd hyn yn arwain at gau Ysgol Babanod Cwm Glas.

### **Ysgol Babanod Cwm Glas (Gorffennaf 2023)**

*"....Dros nifer o flynyddoedd, rydyn ni wedi gweld llai a llai o blant yn mynychu Ysgol Babanod Cwm Glas. Mae llawer o rieni wedi nodi hyn ac, yn anffodus, mae nifer y plant y rhagwelir y byddan nhw'n mynychu yn y dyfodol yn isel iawn. Ynghyd â chyfradd geni isel a chostau uwch, rydyn ni mewn sefyllfa anodd iawn wrth gwrdd â chostau rhedeg yr ysgol.*

*Cyfarfu llywodraethwyr unwaith eto yn ddiweddar i edrych ar niferoedd disgyblion a rhagolygon cyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r rhagolygon ariannol yn peri pryder mawr gan nad yw Llywodraethwyr yn gallu cytuno ar gyllideb gytbwys. Felly, gwahoddodd y Llywodraethwyr Swyddogion o'r Awdurdod Lleol (gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg) i gyfarfod i'w hysbysu bod Llywodraethwyr yn teimlo nad yw'r ysgol bellach yn hyfyw. O'r herwydd, mae'r Llywodraethwyr wedi gofyn i'r Awdurdod Lleol fwrw ymlaen ag ymgynghoriad llawn fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru i gau Ysgol Babanod Cwm Glas ar ddiwedd y flwyddyn academaidd nesaf (Gorffennaf 2024). Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod Tymor yr Hydref."*

### **Sefyllfa Bresennol:**

#### **Ysgol Babanod Cwm Glas**

- Cyfrwng Saesneg
- Ysgol Babanod Cymunedol

- Capasiti o 55 o ddisgyblion
- Nifer derbyn - 19
- O'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ym mis Medi 2023
  - Cyfanswm y disgyblion ar y gofrestr yw 34 o ddisgyblion (31 Cyfwerth ag Amswer Llawn)
  - Roedd gan yr ysgol 50.88% o leoedd gweigion a rhagwelir y bydd hyn yn codi (wrth i nifer y disgyblion ostwng) i 57.89% ym mis Medi 2024.
- Lleolir yr ysgol ar safle 0.5 hectar yn Llanbradach.
- Mae'r ysgol yn gweithredu o 1 prif adeilad ac un dros dro.
- Mae dalgylch Ysgol Babanod Cwm Glas yr un fath ag Ysgol Gynradd Coed-y-brain.

Pe bai'r cynnig i gau yn mynd yn ei flaen, bydd disgyblion o Ysgol Babanod Cwm Glas yn mynychu Ysgol Gynradd Coed-y-brain o ddechrau oed ysgol gynradd yn lle symud ymlaen i Goed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2 sef y broses bresennol.

## **2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

*(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd gwarchodedig*

### **2a Oedran** *(pobl o bob oedran)*

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?**

#### **Cadarnhaol**

Mae'r cynnig yn ceisio darparu ysgol gynradd pob oed cynhwysol a fydd yn effeithio ar ddisgyblion mewn modd cadarnhaol trwy addysg barhaus ar un safle gyda chyn lleied o aflonyddwch a newid â phosibl.

#### **Niwtral**

Byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn mynychu Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2 yn naturiol ond mae'r cynnig hwn yn ceisio ymgorffori disgyblion yn yr ysgol o ddechrau'r cyfnod sylfaen sy'n darparu gwell cysondeb i addysg disgyblion.

#### **Negyddol**



Mae safle Ysgol Gynradd Coed-y-brain 1.1 milltir o safle presennol Ysgol Babanod Cwm Glas, a all arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref. Fodd bynnag, lleolir y ddwy ysgol o fewn pentref Llanbradach.

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Mae llwybrau teithio llesol yn bodoli yn ardal Llanbradach a rhwng y 2 safle ysgol presennol. Byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas eisoes yn symud ymlaen yn naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-brain ar lefel Cyfnod Allweddol 2.

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

[Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#)

[Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall](#)

[Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad 2011](#)

[Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion \(CYBLD\)](#)

Gwybodaeth Ystadegol sy'n ymwneud â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a'u cyfrwng iaith ar gyfer addysg.



**2b Anabledd** (*pobl ag anabledau/ cyflyrau hirdymor*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

**Cadarnhaol**

Mae'r cynnig yn ceisio darparu dull gweithredu ysgol syth drwodd, gan leihau aflonyddwch i ddisgyblion a sicrhau cynefindra a chymorth parhaus o'r cyfnod sylfaen.

**Cadarnhaol**

Mae Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbennig ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

Ddim yn gymwys

- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

Arolygon Cyflwr ar gyfer Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain



**2c Ailbennu Rhywedd** (*unrhyw un y mae ei hunaniaeth neu ei r(h)ywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddo/iddi ar adeg ei (g)eni*)

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Niwtral**

Dim newid wedi'i ragweld

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.

- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2ch Priodas neu Bartneriaeth Sifil** (*pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil*)

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

Dim effaith

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.

- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2d Beichiogrwydd a Mamolaeth** (*menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth*)

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

Dim newid wedi'i ragweld

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.



(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2e Crefydd neu Gred** (*pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

Dim newid wedi'i ragweld

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**2f Rhyw** (*menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

Dim newid wedi'i ragweld

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig penodol eraill.

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol



**2ff Cyfeiriadedd Rhywiol** (*lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?**  
Dim newid wedi'i ragweld
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol oherwydd bod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill.
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**  
Ddim yn berthnasol



### 3. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

**Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:**

- Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed
- Pobl â lefel isel o lythrennedd/rhifedd
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalyddion
- Cymuned y Lluoedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd ag un oedolyn
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd â phrofiad o'r system loches
- Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC)
- Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

#### 3a Incwm Isel / Tlodi Incwm (ni allwch fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)

##### (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

###### **Cadarnhaol**

Byddai Ysgol Gynradd Coed-y-brain lle byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn symud ymlaen yn naturiol iddi yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Llanbradach 3 ac mae'r ardal hon yn safle 453 o blith 1,909 o ardaloedd yng Nghymru lle mae 1 yn golygu y mwyaf difreintiedig a 1,909 y lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

**Cadarnhaol** - Bydd y cyfleuster hwn yn darparu cyfleusterau cymunedol wedi'u huwchraddio i'r rhai sydd wedi'u sefydlu ar hyn o bryd yn Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, y gellir eu defnyddio gan unrhyw un waeth beth fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol.

###### **Niwtral**

Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch i bobl ag anabledau dysgu waeth beth fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol.



- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?  
Ddim yn berthnasol
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

### [A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.

### [Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad 2011](#)

#### [Myneqai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

Mae Ysgol Babanod Cwm Glas yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Llanbradach 1 ac mae'r ardal hon yn safle 1138 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn gwasanaethu ardal Llanbradach 3 sy'n safle 453 o blith 1,909 o ardaloedd yng Nghymru lle mae 1 yn golygu y mwyaf difreintiedig a 1,909 y lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o barhad addysg o 3 i 11 oed.

Mae data prydau ysgol am ddim (PYDd) ar gyfer Babanod Cwm Glas yn dangos bod 24% o ddisgyblion yn derbyn PYDd a Choed-y-brain yn cofnodi 21.55% o gymharu ag 20% ledled y Cyngor a Chymru gyfan.



**3b Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth** (*digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol*)

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol** - Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol.

#### **Cadarnhaol**

Byddai Ysgol Gynradd Coed-y-brain lle byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn symud ymlaen yn naturiol iddi yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) Llanbradach 3 ac mae'r ardal hon yn safle 453 o blith 1,909 o ardaloedd yng Nghymru lle mae 1 yn golygu y mwyaf difreintiedig a 1,909 y lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

#### **Negyddol**

Mae safle Ysgol Gynradd Coed-y-brain 1.1 milltir o safle presennol Ysgol Babanod Cwm Glas, a all arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref. Fodd bynnag, mae'r ddwy ysgol wedi'u lleoli ym mhentref Llanbradach ac mae llwybrau teithio llesol/diogel eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal.

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

[Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)

[Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)

[A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.

[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

Mae Ysgol Babanod Cwm Glas yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Llanbradach 1 ac mae'r ardal hon yn safle 1138 allan o 1,909 ac mae Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn gwasanaethu ardal Llanbradach 3 sy'n safle 453 o blith 1,909 o ardaloedd yng Nghymru lle mae 1 yn golygu y mwyaf difreintiedig a 1,909 y



Ileiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o barhad addysg o 3 i 11 oed.

Mae data prydau ysgol am ddim (PYDd) ar gyfer Babanod Cwm Glas yn dangos bod 24% o ddisgyblion yn derbyn PYDd a Choed-y-brain yn cofnodi 21.55% o gymharu ag 20% ledled y Cyngor a Chymru gyfan.

**3c Amddifadedd Materol** *(ni allwch gael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobiau ac ati)*

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Niwtral**

Dim newid wedi'i ragweld

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

Ddim yn berthnasol

**3ch Amddifadedd Ardal** *(Ile rydych yn byw (ardaloedd gwledig), lle rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?)*

(i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

**Cadarnhaol**

Byddai Ysgol Gynradd Coed-y-brain lle byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn symud ymlaen yn naturiol iddi yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Llanbradach 3 ac mae'r ardal hon yn safle 453 o blith 1,909 o ardaloedd yng Nghymru lle mae 1 yn golygu y mwyaf difreintiedig a 1,909 y lleiaf difreintiedig. Bydd y cynnig hwn yn gwasanaethu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ac yn darparu mwy o ddilyniant addysg o 3 i 11 oed.

(ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol

(iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?**

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

[Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)



## [Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol](#)

Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".

### [A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.

### [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Proffil Ward Etholiadol

Mae proffil ward Llanbradach o wybodaeth Cyfrifiad 2011 wedi cael ei adolygu.

### **3d Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni*

#### **(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?**

##### **Cadarnhaol**

Mae'r ysgol yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach beth bynnag fo'u hanfantais economaidd-gymdeithasol benodol.



(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?  
Ddim yn berthnasol

(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?  
[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)  
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Proffil Ward Etholiadol

Mae proffil ward Llanbradach o wybodaeth Cyfrifiad 2011 wedi cael ei adolygu.

**3dd Anfantais Economaidd-gymdeithasol** *(Pa effaith gronnol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchoddedig/ nodweddion gwarchoddedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais)*

(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?  
**Niwtral**

Ni ragwelir unrhyw newid a byddai disgyblion Cwm Glas wedi symud ymlaen yn naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2.

(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?  
Ddim yn berthnasol

(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?  
Ddim yn berthnasol

---



#### 4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?)*  
Amcanion Llesiant

**Amcan 1** – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

##### **Noder:**

Yn unol â'r cais i'r Awdurdod Lleol a'r llythyr a ryddhawyd gan Bennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Babanod Cwm Glas; byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r pryderon sy'n ymwneud â niferoedd gostyngol ac yn dileu'r pwysau ariannol sy'n ymwneud â darparu cyllideb gytbwys. Er y byddai hyn yn arwain at gau'r ysgol, mae addysg a lles disgyblion yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynnig hwn a rhagwelir y bydd yn lleihau unrhyw effaith ar ddisgyblion presennol a disgyblion y dyfodol yn Llanbradach a'r dalgylch ehangach.

##### **Cadarnhaol**

Mae'r cynnig hwn yn ceisio darparu gwell dilyniant addysg ar safle unigol i ddisgyblion.

##### **Niwtral**

Byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn symud ymlaen yn naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r cynnig hwn yn ceisio trosglwyddo disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, gan gynorthwyo'r egwyddor o addysg Gynradd llawn a lleihau'r aflonyddwch ar gyflwyno'r cwricwlwm.

##### **Negyddol**

Mae pellter Ysgol Gynradd Coed-y-brain o fewn radiws o 1.1 milltir i'r safle presennol er mwyn lleihau unrhyw darfu ar y garfan bresennol a threfniadau teithio. Fodd bynnag, gall hyn arwain at deithio pellach i rai disgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref.

Mae llwybrau teithio llesol yn bodoli a byddai disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas eisoes yn symud ymlaen yn naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-brain.

**Amcan 2** – Galluogi cyflogaeth



Effaith Lleiaf. Yn seiliedig ar wybodaeth bresennol sy'n ymwneud â rhagamcanion disgyblion, lleoedd dros ben a chyfluniad y safle, ychydig iawn o waith/buddsoddiad fydd ei angen ar Ysgol Gynradd Coed-y-brain i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas wrth symud ymlaen.

**Amcan 3** – Mynd i'r afael â chyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella iechyd a lles pobl

Ddim yn berthnasol gan fod y cynnig yn gysylltiedig ag ysgol bresennol.

**Amcan 4** – Hyrwyddo system trafndiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl

**Niwtral** - Mae'r pellter rhwng Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain o fewn radiws o 1.1 milltir a byddai disgyblion wedi symud ymlaen yn naturiol i'r ysgol beth bynnag. Fodd bynnag, gall hyn arwain at deithio pellach i rai disgyblion yn dibynnu ar eu cartref.

Mae llwybrau teithio llesol i'r ysgol adleoli eisoes yn bodoli yn ogystal â chysylltiadau cludiant cryf.

Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Asesir pob disgybl yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cynnig polisi mwy hael na'r hyn sy'n ofynnol yn statudol gan y Mesur. Rhagwelir y bydd y sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal gan fod ysgol gynradd Coed-y-brain ond 1.1 milltir i ffwrdd o safle presennol yr ysgol a byddai disgyblion yn naturiol wedi symud ymlaen i'r ysgol hon yn CA2.

**Amcan 5** – Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### **Cadarnhaol**

Mae darparu dilyniant i'r disgyblion sy'n derbyn addysg mewn un cyfleuster cyfarwydd yn debygol o wella canlyniadau addysg a bywyd disgyblion yr ysgol.

**Amcan 6** – Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

### **Cadarnhaol**

Mae'r cynnig yn cynnwys integreiddio'r cyfnod sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 mewn un ysgol gan alluogi parhad y ddarpariaeth rhwng meithrin a chynradd gan wneud y pontio'n hawdd i ddisgyblion a rhieni.





**4a. Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor** *(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)*

Mae'r cynnig yn cyfrannu at y Strategaethau a ganlyn:

- **Strategaeth Addysg Awdurdod Lleol Caerffili (2022 – 2025)**

**'Dilyn Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd'**

Bydd y cynnig hwn yn gwireddu uchelgais y Cyngor i roi'r cyfleoedd bywyd gorau i bob dysgwr trwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein lleoliadau ysgol trawiadol ar gyfer yr 21ain Ganrif.

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Caerffili**

Dogfen statudol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yw hon, ac mae'r cynllun pedair blynedd hwn yn egluro'n syml beth mae pob un o'r materion cydraddoldeb yn ei olygu mewn gwirionedd ac o dan ba ddeddfwriaeth ehangach y mae gennym ni gyfrifoldebau fel cyngor. Mae'n amlygu cysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cynorthwyo 4 o 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru; Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

- **Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant**

Adroddiad sy'n dwyn ynghyd ystod o wahanol ddata a gwybodaeth i ddatblygu darlun o'r farchnad gofal plant bresennol ac i adnabod unrhyw fylchau mewn cyflenwad.

- **Asesiad Effaith Integredig**

Bydd defnyddio'r cynllun Asesiad Effaith Integredig hwn yn helpu'r Cyngor ymhellach i gynorthwyo penderfyniadau gwybodus ac effeithiol tra'n sicrhau cydymffurfio ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Cyfreithlon ac Egwyddorion Gunning

## 5. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio**

*(A elwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)*

**Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?**

### **Hirdymor**

Rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r cynnig hwn wedi'i ddwyn ymlaen ar gais Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Babanod Cwm Glas ar ôl cydnabod pryderon sy'n ymwneud â gostyngiad yn nifer y disgyblion a chyflawni cyllideb gytbwys.

Yn amodol ar gymeradwyaeth i symud ymlaen gan y Cabinet. Bwriedir adleoli disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn y Cyfnod Sylfaen yn hytrach na'r trefniant Cyfnod Allweddol 2 presennol gan ddarparu seilwaith addysgol mwy effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw am leoedd yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd y cynnig yn adeiladu ar ymrwymiad y Cyngor i gynaliadwyedd a lleihau Carbon, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a defnyddio ein hasedau ysgol presennol yn ardal Llanbradach mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion a chynorthwyo cydlyniant cymunedol, gan gadw disgyblion o fewn eu dalgylch presennol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth i'r cynnig a chau Ysgol Babanod Cwm Glas, byddai adeilad a safle'r ysgol bresennol wedyn yn cael eu dosbarthu fel rhai nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysg ac yn dod yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Byddai defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol wedyn yn destun cyfres o brofion trylwyr i sicrhau bod y Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli. Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, a defnydd cymunedol cyfyngedig sydd yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn ni'n ymgysylltu ag unrhyw grwpiau cymunedol a nodwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.



### **Atal**

Yn unol â'r cais i'r Awdurdod Lleol a'r llythyr a ryddhawyd gan Bennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Babanod Cwm Glas; Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r pryderon sy'n ymwneud â niferoedd gostyngol ac yn dileu'r pwysau ariannol sy'n ymwneud â darparu cyllideb gytbwys. Er y byddai hyn yn arwain at gau'r ysgol, mae addysg a lles disgyblion yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynnig hwn a rhagwelir y bydd yn lleihau unrhyw effaith ar ddisgyblion presennol a disgyblion y dyfodol yn Llanbradach a'r dalgylch ehangach.

### **Integreiddio**

Bydd y cynnig i greu ysgol gynradd unedig yn effeithio ar Nodau Llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd, a'r gymuned ehangach ar gyfer gweithgareddau addysgol, adloniadol a hamdden. Yn hyn o beth bydd ychwanegu disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn y Cyfnod Sylfaen yn hytrach na'r trefniant Cyfnod Allweddol 2 presennol yn cael effaith fach iawn ar weithrediad presennol.

Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi cael ei gynnal, sy'n dangos nad oes unrhyw ddefnydd cymunedol yn Ysgol Babanod Cwm Glas ar hyn o bryd, fodd bynnag, os bydd unrhyw grwpiau'n cael eu hadnabod wedi hynny, byddwn ni'n ymgysylltu â'r rhain fel rhan o'r broses ymgynghori ac yn eu hannog i adleoli i leoliadau eraill sy'n eiddo i'r Cyngor gan gynnwys Ysgol Gynradd Coed-y-brain fel y bo'n briodol.

### **Cydweithio**

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda staff yn Ysgol Babanod Cwm Glas, Ysgol Gynradd Coed-y-brain ac ar draws ystod o adrannau i gyflawni'r cynnig a gyflwynwyd gan gais Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Babanod Cwm Glas. Bydd dilyn y prosesau ymgynghori a ragnodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cynnwys ymgysylltu â'r dysgwyr i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed yn y broses ddatblygu.



## Cynnwys

Bwriad y cynnig hwn yw cau Ysgol Babanod Cwm Glas a symud disgyblion i Ysgol Coed-y-brain lle byddai disgyblion yn naturiol wedi mynychu o CA2 ymlaen, sy'n ysgol wedi'i lleoli 1.1 milltir yn unig o ysgol bresennol Babanod Cwm Glas. Mae'r 'newid rheoledig' hwn fel y'i diffinnir gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn gosod y newid arfaethedig o fewn cwrpas Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, felly bydd y canllawiau'r Cod, yn enwedig o ran ymgynghori ac ymgysylltu, yn cael eu dilyn yn agos. Bydd Llais y Dysgwr hefyd yn cael ei ddal fel rhan o'r broses hon

---



## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### **A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?**

#### **Cymru lewyrchus**

*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas*

**Mae gweithlu medrus sydd wedi'i addysgu'n dda yn galluogi unigolion i fyw bywydau llwyddiannus a chyfrannu at yr economi ehangach.**

**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**

#### **Carbon Corfforedig / Carbon Gweithredol**

Bydd integreiddio disgyblion yr Ysgol Babanod i ddarpariaeth Ysgol Gynradd y Cyfnod Sylfaen o'i gymharu â Chyfnod Allweddol 2 yn arwain at gau'r Ysgol Babanod a fydd yn lleihau gwastraff drwy ddefnyddio cyfleusterau ar un safle unigol yn lle defnyddio golau, gwres ac ati ar draws 2 safle. Bydd hyn yn lleihau'r effaith ar newid hinsawdd.

#### **Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol:**

Mewn ysgol gynradd, mae pob plentyn - iau a hŷn - yn cael cyfleoedd i rannu canlyniadau eu dysgu a datblygu gwell dealltwriaeth o'r ystod o gyflawniad personol ar draws y cyfnodau allweddol.

Mae ysgol gynradd yn darparu amgylchedd lle gall plant weithio a chwarae gyda'i gilydd dros gyfnod hirach o amser gan ddatblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gryfderau, sgiliau a phersonoliaethau amrywiol ei gilydd. Dangoswyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol, datrys problemau a datblygu perthnasoedd rhwng holl aelodau'r gymuned.

**Cymru gydnerth**



*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)*

**Bydd pobl ifanc sydd wedi datblygu llesiant cadarnhaol a ffyrdd iach o fyw yn gallu ymdopi'n well â'r newidiadau a ddaw yn y dyfodol a, thrwy hynny, wneud Cymru yn genedl fwy cydnerth.**

**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**

Mae ysgol gynradd yn darparu amgylchedd lle gall plant weithio a chwarae gyda'i gilydd dros gyfnod hirach o amser gan ddatblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gryfderau, sgiliau a phersonoliaethau amrywiol ei gilydd. Dangoswyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol, datrys problemau a datblygu perthnasoedd rhwng holl aelodau'r gymuned.

Bydd integreiddio disgyblion yr ysgol babanod yn y ddarpariaeth Ysgol Gynradd yn y Cyfnod Sylfaen yn hytrach na Chyfnod Allweddol 2 yn arwain at sicrhau cyfleoedd i bob plentyn - iau a hŷn - i rannu canlyniadau eu dysgu a datblygu gwell dealltwriaeth o'r ystod o gyflawniad personol ar draws y cyfnodau allweddol.

#### **Cymru iachach**

*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol*

**Mae galluogi pobl i ddatblygu ffyrdd iach o fyw a llesiant cadarnhaol yn arwain at fuddiannau hirdymor cadarnhaol ar gyfer eu hiechyd eu hunain a chymdeithas yn gyffredinol.**

**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**

Bydd parhad y ddarpariaeth ar un safle o fudd sylweddol i blant, disgyblion, rhieni, teuluoedd a'r gymuned leol.

- Parhad a dilyniant dysgu
- Parhad profiad a darpariaeth
- Defnydd effeithlon o adnoddau dynol ac addysgol
- Cyfleoedd ar gyfer mwy o gyswllt addysgol gyda phlant iau a hŷn a chyfle i rannu deilliannau dysgu ar draws y cyfnodau allweddol
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad cymdeithasol cynyddol, er enghraifft, gyda disgyblion hŷn yn cael rhywfaint o gyfrifoldeb bugeiliol priodol am blant iau
- Rhwyddineb cynnal a chadw safle
- Mwy o bosibiliadau ar gyfer defnydd effeithiol, effeithlon a hyblyg o lety a chynnal a chadw safleoedd yn fwy effeithlon



- Mwy o gapasiti i gynorthwyo agenda estynedig yr ysgol a datblygu “ysgolion o’r wawr tan y cyfnos gyda gofal plant brechwast a chlybiau ar ôl ysgol” mewn modd mwy cydlynol i rieni/ gofalwyr
- Un canolbwynt i'r gymuned

### **Cymru sy'n fwy cyfartal**

*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)*

**Dylai pawb yng Nghymru allu byw eu bywydau a chyflawni eu potensial.**

**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**

### **Defnydd Cymunedol:**

Bydd y cynnig yn adeiladu ar ymrwymiad y Cyngor i gynaliadwyedd a lleihau Carbon, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a defnyddio ein hasedau ysgol presennol yn ardal Llanbradach mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion a chynorthwyo cydlyniant cymunedol ehangach, gan gadw disgyblion o fewn eu dalgylch presennol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth i'r cynnig a chau Ysgol Babanod Cwm Glas, byddai adeilad a safle'r ysgol bresennol wedyn yn cael eu dosbarthu fel rhai nad oes eu hangen mwyach ac yn dod yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Byddai defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol wedyn yn destun cyfres trylwyr o brofion i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli. Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, ac mae'r ddwy ysgol wedi cyfyngu ar y defnydd cymunedol presennol, fodd bynnag byddwn ni'n ymgysylltu ag unrhyw grwpiau cymunedol a gaiff eu handabod fel rhan o'r broses ymgynghori.

### **Effaith ar ysgolion eraill:**

Rhagwelir y bydd yr effaith ar ysgolion eraill yn fychan iawn gan fod disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas eisoes yn trosglwyddo'n naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn rhannu'r un dalgylch ac mae'r ddwy wedi'u lleoli ym mhentref Llanbradach.

Ni fyddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar y Ddarpariaeth Addysg Uwchradd gan na fyddai unrhyw newid i drefniadau presennol yr ysgolion bwydo.

**Cymru o gymunedau cydlynus**



*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da*

Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion presennol a'r rhai sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen i Ysgol Gynradd Coed-y-brain, cyfnod pontio a fyddai'n digwydd yn naturiol yng Nghyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd. Trwy integreiddio'r disgyblion i un ysgol, ar un safle, bydd yn annog cydlyniant cymunedol wrth i blant o'r un gymuned gael mynediad i'r un cyfleusterau addysgol a chymunedol. Bydd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar gyfer teuluoedd a bydd y ffaith bod y gymuned ehangach yn cael cyfleusterau canolog yn dod â'r cymunedau at ei gilydd.

### **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden*

Mae'r cynnig hwn yn gyfle i adfywio addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal er bod y ddwy ysgol bresennol yn rhai cyfrwng Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i Addysg Gymraeg: Papur Gwyn i gyfoethogi'r darpariaeth Cymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig.

### **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang*

O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae cyllidebau ysgolion unigol yn cael eu pennu gan ddefnyddio fformiwla ariannu wedi'i chytuno'n lleol yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr. Rhaid i ysgolion allu dangos drwy gynllun gweithredu ariannol y bydd yr ysgol yn mynd ati i sicrhau cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu wedi cydnabod bod Ysgol Fabanod Cwm Glas yn wynebu diffyg ariannol sylweddol gyda disgwyl i nifer y disgyblion leihau ymhellach.

### **Ysgol Babanod Cwm Glas (Gorffennaf 2023)**

*"....Dros nifer o flynyddoedd, rydyn ni wedi gweld llai a llai o blant yn mynychu Ysgol Babanod Cwm Glas. Mae llawer o rieni wedi nodi hyn ac, yn anffodus, mae nifer y plant y rhagwelir y byddan nhw'n mynychu yn y dyfodol yn isel iawn. Ynghyd â chyfradd geni isel a chostau uwch, rydyn ni mewn sefyllfa anodd iawn wrth gwrdd â chostau rhedeg yr ysgol.*

*Cyfarfu llywodraethwyr unwaith eto yn ddiweddar i edrych ar niferoedd disgyblion a rhagolygon cyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r rhagolygon ariannol yn peri pryder mawr gan nad yw Llywodraethwyr yn gallu cytuno ar gyllideb gytbwys. Felly, gwahoddodd y Llywodraethwyr Swyddogion o'r Awdurdod Lleol (gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg) i gyfarfod i'w hysbysu bod Llywodraethwyr yn teimlo nad yw'r ysgol bellach yn hyfyw. O'r herwydd, mae'r Llywodraethwyr wedi gofyn i'r Awdurdod Lleol fwrw ymlaen ag*





*ymgyngoriad llawn fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru i gau Ysgol Babanod Cwm Glas ar ddiwedd y flwyddyn academaidd nesaf (Gorffennaf 2024). Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod Tymor yr Hydref.”*

Ystyriodd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, ddewisiadau eraill rhesymol yn lle cau, megis gostwng nifer y dosbarthiadau, cydweithio, ffedereiddio a chydleoli, ond ystyriwyd nad oedden nhw'n hyfyw nac yn gynaliadwy.

Bydd y cynnig, os cytunir arno, yn arwain at gau Ysgol Babanod Cwm Glas sydd wedi'i hadnabod fel un nad yw bellach yn ariannol hyfyw i'w gweithredu gan y Corff Llywodraethol. Trwy bontio, bydd y disgyblion presennol a'r rhai sydd i fod yn mynychu Lefel Sylfaen ar gyfer blwyddyn academaidd Medi 2024 yn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y rhai cyn Cyfnod Allweddol 2 tra'n lleihau unrhyw aflonyddwch ar ddarpariaeth y cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd.

Bydd darpariaeth gymunedol yn parhau i weithredu o Ysgol Gynradd Coed-y-brain bresennol a bydd defnydd pellach yn cael ei annog a fydd yn cynnwys y cyfle i deuluoedd ddysgu/cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gan gynnwys y Gymraeg lle nad yw hyn wedi'i sefydlu eisoes.

---



## 7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

*(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)*  
Safonau Llundain Polisi – Dogfen Gynqor Arferion Da

### 7a. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 a Phroffil Iaith BSC

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

**Niwtral**

Mae Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y cwricwlwm Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd.

**Cadarnhaol**

Rhoddir ystyriaeth i'r Addysg Gymraeg: Papur Gwyn i gyfoethogi darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig.

- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

Ddim yn berthnasol

- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad

*Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

Ddim yn berthnasol

### 7b. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. *Safonau 88–93 yn benodol*

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

**Niwtral**

Mae Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y cwricwlwm Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd.

**Niwtral**

Bydd yr arwyddion yn Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn aros fel y maen nhw.



**Cadarnhaol** - Mae'r holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n cefnogi ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ac yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cadarnhaol** - Gellir anfon a derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Bydd y broses yn ystod y cyfnod Ymgynghori a'r cyfnod Gwrthwynebu yn sicrhau bod ymgynghoreion allweddol yn cael eu targedu fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; bydd y broses yn darparu cyfleoedd i ymateb yn newis iaith ymatebwyr - Cymraeg neu Saesneg.

Yn ogystal, ymgynghorir ar farn plant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw trwy sesiynau gwybodaeth ac adborth wedi'u targedu a chynhyrchu fersiynau o'r ddogfennaeth sy'n addas i blant sydd hefyd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**

Prosesau Ymgynghori Hanesyddol sy'n cynnwys arwyddion dwyieithog fel safon ar draws holl gyfleusterau'r Cyngor i ddiogelu adeiladau at y dyfodol a rhoi lle amlwg cynyddol i'r Gymraeg



**7c. Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** *e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned*

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Niwtral**

Mae Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y cwricwlwm Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd.

**Cadarnhaol**

Rhoddir ystyriaeth i'r Addysg Gymraeg: Papur Gwyn i gyfoethogi darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig.

**Cadarnhaol** - Mae'r holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n cefnogi ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ac yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cadarnhaol** - Gellir anfon a derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**

Ddim yn berthnasol

Bydd yr holl ddogfennaeth a gyhoeddir ar wefan Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chyfieithu drwy Dîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor.

- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?** *e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad*

*Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

Ddim yn berthnasol

**7ch. Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** *e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr*

- (i) **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Cadarnhaol** - Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.



**Cadarnhaol** - Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cadarnhaol** - Ar yr amod bod y cynnig yn cael ei gymeradwyo a chau Ysgol Babanod Cwm Glas, byddai adeilad a safle presennol yr ysgol wedyn yn cael eu dosbarthu fel rhai nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysg ac yn dod yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Byddai defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol wedyn yn destun cyfres o brofion trywlywyr i sicrhau bod y Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu.

**(ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol

**(iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**  
Ddim yn berthnasol

#### **7d. Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**(i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?**

**Cadarnhaol** - Gellir darparu ar gais unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darpariaeth addysg trwy ddewis iaith y plentyn/teulu a'r hawl sydd ganddyn nhw i hyn o dan Fesur y Gymraeg.

**Cadarnhaol** - Cynhyrchir yr holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg.



**Cadarnhaol** - Bydd modd anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- (ii) **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?**  
Ddim yn berthnasol
- (iii) **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?** *e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*  
Gweithgareddau Ymgysylltu Hanesyddol a gyflawnwyd drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor.

**7dd. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

### **Angen a galw**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi gofyn am gau'r ysgol oherwydd bod niferoedd yn gostwng a phroblemau gyda hyfywedd ariannol. Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddarpariaeth cwricwlwm y Gymraeg i ddisgyblion o'i gymharu â'r cynnig presennol, ac eithrio'r ffaith y bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chyflwyno drwy Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn unig gan y bydd disgyblion o Ysgol Babanod Cwm Glas wedi trosglwyddo'n gynharach na Chyfnod Allweddol 2 sef y broses sydd ar waith ar hyn o bryd. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae potensial i ehangu mynediad at gyfleusterau a gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cael eu harchwilio os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

### **Lleoliad**

Bydd gofyn i ddisgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas fynychu Ysgol Gynradd Coed-y-brain o'r cyfnod sylfaen yn lle'r trefniant presennol o Gyfnod Allweddol 2. Mae'r ddwy ysgol tua 1.1 milltir oddi wrth ei gilydd ond wedi eu lleoli o fewn yr un dalgylch a Phentref Llanbradach. Mae Ysgol Babanod Cwm Glas yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Gynradd Coed-y-brain felly mae llwybrau teithio llesol presennol wedi'u sefydlu. Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y Gymraeg gan fod Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn ysgolion cyfrwng Saesneg ac nid oes unrhyw newid arfaethedig i'r modd y cyflwynir y cwricwlwm presennol, heblaw am hyn yn cael ei wneud yn yr ysgol gynradd yn unig pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen.

### **Dull a phroses**



Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw'r broses ragnodedig ar gyfer symud y cynnig hwn yn ei flaen. Mae'r cynnig yn ceisio cau Ysgol Babanod Cwm Glas a symud ei disgyblion i Ysgol Gynradd Coed-y-brain lle bydden nhw'n naturiol wedi symud ymlaen i Gyfnod Allweddol 2.

Bydd yr holl ddogfennaeth yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd modd cael mynediad at y ddogfennaeth ar dudalen we Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor ac ar ffurf copi caled. Bydd y ddogfennaeth hefyd ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y Gymraeg gan fod Ysgol Babanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn ysgolion cyfrwng Saesneg ac nid oes unrhyw newid arfaethedig i'r modd y cyflwynir y cwricwlwm presennol, heblaw am hyn yn cael ei wneud yn yr ysgol gynradd yn unig pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen.

---

## 8. Data a Gwybodaeth

*(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)*

**Data/tystiolaeth** *(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol)*

Mae Ysgol Fabanod Cwm Glas yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 a 7 oed ac mae ganddi ffigur capasiti cyhoeddedig o 55 o leoedd a nifer derbyn cyhoeddedig o 19.

Nifer y disgyblion ar hyn o bryd yw 34 (31 Cyfwerth ag Amser Llawn) gyda dros 50% o'r disgyblion hyn yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 50.88% o'r lleoedd yn wag, gan godi i 57.89% ym mis Medi 2024, a rhagamcanir bydd hyn yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod oherwydd disgwylir bydd nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau yn yr ardal a dewis rhieni.

### **Ysgol Babanod Cwm Glas (Gorffennaf 2023)**

*"....Dros nifer o flynyddoedd, rydyn ni wedi gweld llai a llai o blant yn mynychu Ysgol Babanod Cwm Glas. Mae llawer o rieni wedi nodi hyn ac, yn anffodus, mae nifer y plant y rhagwelir y byddan nhw'n mynychu yn y dyfodol yn isel iawn. Ynghyd â chyfradd geni isel a chostau uwch, rydyn ni mewn sefyllfa anodd iawn wrth gwrdd â chostau rhedeg yr ysgol.*



*Cyfarfu llywodraethwyr unwaith eto yn ddiweddar i edrych ar niferoedd disgyblion a rhagolygon cyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r rhagolygon ariannol yn peri pryder mawr gan nad yw Llywodraethwyr yn gallu cytuno ar gyllideb gytbwys. Felly, gwahoddodd y Llywodraethwyr Swyddogion o'r Awdurdod Lleol (gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg) i gyfarfod i'w hysbysu bod Llywodraethwyr yn teimlo nad yw'r ysgol bellach yn hyfyw. O'r herwydd, mae'r Llywodraethwyr wedi gofyn i'r Awdurdod Lleol fwrw ymlaen ag ymgynghoriad llawn fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru i gau Ysgol Babanod Cwm Glas ar ddiwedd y flwyddyn academaidd nesaf (Gorffennaf 2024). Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod Tymor yr Hydref."*

Roedd yr Wybodaeth Ategol Ychwanegol a ystyriwyd yn cynnwys:

- **Cyfrifiad 2011: [Cyfrifiad 2011 - Swyddfa Ystadegau Gwladol \(SYG\)](#)**
- **Arolwg defnydd o'r Gymraeg 2019-2020**  
[Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 - Llyw Cymru](#)
- **Sefyllfa'r Gymraeg- Comisiynydd y Gymraeg**  
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cyhoeddiadau-ac-adnoddau/sefyllfar-gymraeg-2016-20-adroddiad-5-mlynedd>
- **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**  
<https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth>
- **Adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg**  
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/cyngor-a-chymorth/adroddiadau-sicrwydd>
- **Arolwg Cenedlaethol Cymru**  
<https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg>
- **Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol**  
<https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-adroddiadau-blynyddol>
- **Nodyn cyngor technegol (TAN) 20**  
<https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg>
- **Data iechyd a'r iaith Gymraeg**  
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Medical-Services/Pre-October-2009/GPWelshlanguageAbility-by-LocalHealthBoard-Year>
- **Data'r iaith Gymraeg a'r economi**  
[Clawr tasg a gorffen Gymraeg](#)

**Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?**

Mae'r niferoedd disgyblion rhagamcanol a'r rhagolygon ariannol canlyniadol ar gyfer yr ysgol yn her sylweddol i allu'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais i'r Awdurdod Lleol am ystyried cau'r ysgol o fis Gorffennaf 2024.





Under the School Funding (Wales) Regulations 2010, Individual school budgets are determined using a locally agreed funding formula in accordance with factors which are learner led. Schools must be able to demonstrate via a financial action plan that the school will work to deliver a balanced budget. However, the Head Teacher and Governing Body have acknowledged that Cwm Glas School is facing a significant financial deficit with pupil numbers projected to further decrease moving forward.

Ystyriodd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, ddewisiadau eraill rhesymol yn lle cau, megis gostwng nifer y dosbarthiadau, cydweithio, ffedereiddio a chydleoli, ond ystyriwyd nad oedden nhw'n hyfyw nac yn gynaliadwy.

Mae'r data a'r dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd hyd yma ac a amlinellir yn y ddogfen hon wedi cefnogi'r rhesymeg dros gyflwyno'r cynnig i gau Ysgol Babanod Cwm Glas gyda darpariaeth ar gyfer disgyblion yng Nghoed-y-brain, y gellid ei chynnwys o fewn yr amserlenni a nodir, yn amodol ar gymeradwyaeth.

Bydd data a gwybodaeth bellach yn cael eu casglu fel rhan o'r broses Ymgynghori gan mai dim ond mewn partneriaeth ag Aelodau'r Ward Leol, Swyddogion y Cyngor, Penaethiaid Ysgolion a Chadeirydd Llywodraethwyr y ddwy ysgol y mae'r cynnig hwn wedi'i adolygu'n fewnol hyd yma. Bydd ymgysylltu pellach â Rhanddeiliaid yn galluogi ystyriaeth gydwybodol gyda golwg ar benderfyniad terfynol ar hyfywedd y cynnig hwn neu symud ymlaen ag unrhyw opsiynau amgen dichonadwy.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n barhaus ar ddiwedd pob cam ymgynghori. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais. Bydd copi hefyd ar gael i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ac Aelodau'r Cabinet fel rhan o'r broses benderfynu.

**A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?** *Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9.*

Ar y cam hwn yn y broses, nid oes unrhyw fylchau wedi'u nodi. Fodd bynnag, yn amodol ar gymeradwyaeth i fynd ymlaen i ymgynghori, bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei adolygu i gynnwys unrhyw elfennau ychwanegol a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol.

Pwrpas yr asesiad pellach hwn yw i gymryd unrhyw wybodaeth bellach i ystyriaeth neu opsiynau eraill sydd wedi dod ymlaen drwy'r ymgynghoriad neufel arall.

---

## 9. Ymgynghori

*(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu. Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddarau hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.*

**Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.**

### **Â phwy yr ymgynghorwyd?**

Mae Tîm Cyllid Addysg y Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ers nifer o flynyddoedd, fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu wedi cydnabod bod Ysgol Fabanod Cwm Glas yn wynebu diffyg ariannol sylweddol a rhagwelir y bydd niferoedd y disgyblion yn gostwng ymhellach, ac nid ydyn nhw'n gallu dangos eu bod nhw'n gallu gwrthdroi'r diffyg drwy gynllun gweithredu ariannol.

Mae sesiynau ymgysylltu a briffio cychwynnol wedi'u cynnal gyda Phenaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr y ddwy ysgol. Roedd yr adborth o'r ddwy sesiwn yn gadarnhaol er y cynhelir sesiynau pellach wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a sut mae'r cynigion yn cael effaith, yn unol â'r canllawiau.

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-brain yn cael eu dosbarthu fel ysgol gymunedol o dan y cod, ac nid oes unrhyw eithriadau yn yr achos hwn. Felly, cynhelir y broses ymgynghori fel y'i rhagnodir gan y cod i sicrhau lefel briodol o ymgysylltu wrth hysbysu rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw. Mae'r broses hon yn synergaid â Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 y Cyngor a'r "Sbectwm Ymgysylltu".

**Pan ymgynghorwyd â nhw, a gynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cam ffurfiannol ac a roddwyd digon o amser i ymgynghoreion ystyried ac ymateb?**

Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r broses ymgynghori yn cael ei chynnal yn unol â'r amserlen ganlynol yn seiliedig ar gymeradwyaeth ar bob cam o'r broses:

<b>Amserlen Cynnig Ysgol Babanod Cwm Glas</b>	
Ymgynghoriad yn Agor	Dydd Iau 28 Medi 2023
<b>Craffu</b> (fel ymgynghorai)	Dydd Mawrth 17 Hydref 2023
Ymgynghoriad yn dod i ben	Dydd Iau 9 Tachwedd 2023
<b>Craffu</b> (ystyried yr Adroddiad Ymgynghori a chadarnhau cyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023
<b>Cabinet</b> (ystyried Adroddiad Ymgynghori a chytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023
Hysbysiad Statudol / Cyfnod Gwrthwynebu yn Agor	Dydd Llun 8 Ionawr 2024
Diwedd y Cyfnod Hysbysiad Statudol / Gwrthwynebu	Dydd Llun 5 Chwefror 2024
<b>Craffu</b> (ystyried Adroddiad Gwrthwynebu)	Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024
<b>Cabinet</b> (gwneud penderfyniad terfynol)	Dydd Mercher 20 Mawrth 2024

Mae'r amserlenni wedi'u nodi i gydymffurfio â chanllawiau Ymgynghori Llywodraeth Cymru gan ganiatáu digon o amser i ymgynghoreion ystyried ac ymateb.

Yn amodol ar benderfyniad terfynol i symud ymlaen, byddai'r broses wedyn yn cael ei rhoi ar waith mewn cysylltiad agos â'r ddwy ysgol.

### **A roddwyd digon o wybodaeth i'r ymgynghoreion er mwyn iddynt wneud penderfyniad hyddysg ynghylch y cynnig?**

Rhodddwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Aelodau'r Cabinet yn amlinellu'r cynnig, y rhesymeg a'r ffordd ymlaen a argymhellir sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

### **Beth oedd y canlyniadau allweddol?**

- Bydd cymeradwyaeth ar gyfer gwneud yr argymhelliad i'r Cabinet o ran bwrw ymlaen â'r cynnig yn cael ei cheisio gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Medi 2023.
- Bydd cymeradwyaeth ar gyfer symud ymlaen i'r ymgynghoriad ffurfiol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cael ei cheisio gan y Cabinet ar 20 Medi 2023.
- Mae sesiynau ymgysylltu cychwynnol wedi eu cynnal gyda Phenaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr y ddwy ysgol. Roedd yr adborth o'r ddwy sesiwn yn gadarnhaol er y cynhelir sesiynau pellach wrth i'r cynnig fynd rhagddo.



### **A ystyriwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad?**

Cynhelir dadansoddiad pellach ar ôl yr ymgynghoriad pan fydd y garfan ehangach o randdeiliaid fel rhagnodir yn y Cod, a gweithgareddau Estyn ac Ymgysylltu â Disgyblion wedi'u cynnal.

Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori.

Bydd yr adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd yn cael ei ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.



## 10. Monitro ac Adolygu

**Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith, a'i effaith, eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?**

Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli gan Fwrdd Strategaeth Ysgol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac Addysg, Pennaeth Trawsnewid, Pennaeth Cyllid Corfforaethol, Prif Swyddog Addysg, Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, Rheolwr Cyllid Addysg, Rheolwr Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a Phrif Swyddog Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Ar lefel fwy lleol, bydd egwyddorion rheoli Prosiect yn cael eu dilyn drwy gydol y rhaglen. Bydd Tîm Rheoli Prosiect yn goruchwylio datblygiad a gweithrediad pob elfen gyfansoddol o'r prosiect o ddydd i ddydd, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â'r Ysgol a'r Disgyblion, gan adrodd i'r Bwrdd ac uwch swyddogion perthnasol eraill, fel y bo'n briodol.

Bydd Tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r holl bartïon perthnasol i sicrhau cadw at y prosesau sy'n ymwneud â'r goblygiadau o ran personél, a bod cymorth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Mae personél allweddol wedi cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a'r Gymraeg ac Asesu Effaith Integredig. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu mewn deialog cyson gyda'r Uwch Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg i dderbyn arweiniad lle bo angen.

**Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid i'r sefydliad cyfan fod yn fedrus wrth wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Cydnabyddir bod rheoli prosiect da yn elfen hanfodol o lwyddiant wrth fynd i'r afael â'n rhaglen waith strategol.

Unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud ar y cynnig gan y Cabinet, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu fel yr amlinellwyd, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ddwy ysgol i sicrhau bod y pontio'n effeithio cyn lleied â phosibl ar ddisgyblion, staff, teuluoedd a'r gymuned leol.

**Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?**

Bydd Gwireddu Buddion, Gwerth Cymdeithasol ac Effaith ar ein hymrwymadau o ran Datgarboneiddio a'r Gymraeg yn cael eu monitro gan dîm y prosiect a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili



Bydd cyfarfodydd monitro rheolaidd yn cael eu cynnal drwy gydol symud y cynnig yn ei flaen ac fel arfer byddan nhw'n cynnwys y Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a bydd Penaethiaid, Llywodraethwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill hefyd yn cymryd rhan mewn gwerthusiad ôl-brosiect i adolygu canlyniadau.

### **Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?**

Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r broses benderfynu fewnol yn cael ei chynnal yn unol â'r amserlen ganlynol yn seiliedig ar gymeradwyaeth ar bob cam o'r broses:

	<b>Ysgol Babanod Cwm Glas</b>
<b>Craffu</b> (fel ymgynghorai)	Dydd Mawrth 17 Hydref 2023
<b>Craffu</b> (ystyried yr Adroddiad Ymgynghori a chadarnhau cyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023
<b>Cabinet</b> (ystyried Adroddiad Ymgynghori a chytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol)	Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023
<b>Craffu</b> (ystyried Adroddiad Gwrthwynebu)	Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024
<b>Cabinet</b> (gwneud penderfyniad terfynol)	Dydd Mercher 20 Mawrth 2024

Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei gwblhau ar ddiwedd pob cam Ymgynghori i adlewyrchu unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd neu unrhyw opsiynau a allai fod yn ddewis amgen ymarferol i'r opsiwn a ffefrir sy'n cael ei gynnig.

### **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?**

Mae Bwrdd y Rhaglen yn darparu cyfeiriad a rheolaeth gyffredinol ar gyfer y Rhaglen, gan fod yn atebol am lwyddiant y Rhaglen.

Gofynnir i Aelodau Craffu ac Aelodau Cabinet adolygu'r cynnig a chymeradwyo/gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Babanod Cwm Glas. Ar hyn o bryd mae disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, i gyflwyno darpariaeth ysgol gynradd bob oed cynhwysol o fis Medi 2024.

Os caiff ei gymeradwyo, cyfrifoldeb Awdur/Awduron yr adroddiad hwn (neu swyddog enwebedig yn eu hadran) fydd sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig a'r cynnig yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau lliniaru yn cael eu dilyn a'u gweithredu.

---



## 11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau (dilëwch fel y bo'n berthnasol)

- Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd

A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?  
(dilëwch fel y bo'n berthnasol)

- Ydw

---

## 12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

*(Isod, rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).*

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a rheoli lleoedd ysgol a rhaid iddyn nhw sicrhau darpariaeth yn effeithlon er mwyn canolbwyntio adnoddau ar wella. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ei gydnabod.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Cyngor yw adnabod y strategaethau trefniadaeth ysgolion a rheoli asedau hynny sy'n cyfrannu'n fwyaf cadarnhaol at ddeilliannau i ddysgwyr.

Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas yn gostwng, a rhagwelir y bydd yn gostwng ymhellach, cafodd cyfarfod ei drefnu gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.

Cytunwyd yn y cyfarfod na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Ystyriodd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, dewisiadau eraill rhesymol yn lle cau, megis gostwng nifer y dosbarthiadau, cydweithio, ffedereiddio a chydleoli, ond ystyriwyd nad oedden nhw'n hyfyw nac yn gynaliadwy.

Argymhelliad yr Asesiad Effaith Integredig hwn ac yn unol â'r prosesau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw bod yr Aelodau'n cadarnhau/cymeradwyo'r cynnig:

- Ar hyn o bryd mae disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, i gyflwyno darpariaeth ysgol gynradd bob oed cynhwysol o fis Medi 2024. Bydd hyn yn arwain at y cau Ysgol Babanod Cwm Glas.



Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a rheoli lleoedd ysgol a rhaid iddyn nhw sicrhau darpariaeth yn effeithlon er mwyn canolbwyntio adnoddau ar wella. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ei gydnabod.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Cyngor yw adnabod y strategaethau trefniadaeth ysgolion a rheoli asedau hynny sy'n cyfrannu'n fwyaf cadarnhaol at ddeilliannau i ddysgwyr.

Argymhelliad yr Asesiad Effaith Integredig hwn ac yn unol â'r prosesau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw bod yr Aelodau'n cadarnhau/cymeradwyo'r cynnig:

- Ar hyn o bryd mae disgyblion Ysgol Babanod Cwm Glas yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, i gyflwyno darpariaeth ysgol gynradd bob oed cynhwysol o fis Medi 2024. Bydd hyn yn arwain at y cau Ysgol Babanod Cwm Glas.

Mae'r cynnig hwn wedi'i symud ymlaen o ganlyniad i gais gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Babanod Cwm Glas.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd ac a adolygwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn dangos hyfywedd y cynnig, trwy drosglwyddo disgyblion o Ysgol Babanod Cwm Glas yn y Cyfnod Sylfaen yn hytrach na Chyfnod Allweddol 2 sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae Ysgol Babanod Cwm Glas yn bwydo naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-brain, sydd â digon o le i ddarparu ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgolion yn rhannu'r un dalgyllch ac mae'r ddwy wedi'u lleoli ym Mhentref Llanbradach tua 1.1 milltir oddi wrth ei gilydd gyda llwybrau teithio llesol presennol wedi'u sefydlu. Byddai'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â phryderon Corff Llywodraethu Ysgol Babanod Cwm Glas ac yn cynorthwyo'r Cyngor i reoli lleoedd dros ben o ystyried y gostyngiad a ragwelir yn nifer y disgyblion.

---





### 13. Rheoli Fersiynau

*(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser) (Ychwanegwch neu ddilëwch fersiynau fel y bo'n berthnasol)*

#### ➤ Fersiwn 1

**Awdur:-** Lisa Thomas

**Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad:-**

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i gynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a nodir yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Dyddiad Diwygio:-** 28 Medi 2023

#### ➤ Fersiwn 2

**Awdur:-** Andrea West

**Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad:-**

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i adolygu i gynnwys unrhyw rai ychwanegol elfennau a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd rhwng 8 Ionawr 2024 a 5 Chwefror 2024.

Pwrpas yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod ymlaen drwy'r ymgynghoriad neu fel arall.

Nid oes angen diweddariadau pellach ar hyn o bryd.

**Dyddiad Adolygu:-** 8 Chwefror 2024

---

---



**Awdur yr Asesiad Effaith Integredig**

**Enw:- Lisa Thomas**

**Teitl Swydd:- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Prif Swyddog**

**Dyddiad:- 22 Awst 2023**

**Enw:- Andrea West**

**Teitl Swydd:- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Rheolwr**

**Dyddiad:- 22 Awst 2023**

**Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth**

**Enw:- Sue Richards**

**Teitl Swydd:- Pennaeth Trawsnewid a Cynllunio a Strategaeth Addysg**

**Llofnod:- *S. Richards***

**Dyddiad:- 24 Awst 2023**